| Cynulliad Cenedlaethol Cymru | | National Assembly for Wales |
|---|---|---|
| **OFFERYNNAU STATUDOL** | | **S T A T U T O R Y I N S T R U M E N T S** |
| **2000 Rhif (Cy. )** | | **2000 No. (W. )** |
| **LLYWODRAETH LEOL, CYMRU** | | **LOCAL GOVERNMENT, WALES** |
| **Gorchymyn Llywodraeth Leol (Gwerth Gorau) (Eithrio) (Cymru) 2000** | | **The Local Government (Best Value) (Exemption) (Wales) Order 2000** |
| | | |
| **NODYN ESBONIADOL**<br>*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)* | | **EXPLANATORY NOTE**<br>*(This note does not form part of the Order)* |
| | | |
| Mae Rhan 1 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1999 yn gosod dyletswyddau ar awdurdodau lleol ac awdurdodau eraill i wneud trefniadau i sicrhau gwelliannau parhaol yn y ffordd y mae eu swyddogaethau yn cael eu harfer (gwerth gorau), i gynnal adolygiadau gwerth gorau o'u swyddogaethau ac i baratoi cynllun perfformiad gwerth gorau ar gyfer pob blwyddyn ariannol. | | Part I of the Local Government Act 1999 imposes duties on local and other authorities to make arrangements to secure continuous improvements in the way in which their functions are exercised (best value), to conduct best value reviews of their functions and to prepare a best value performance plan for each financial year. |
| | | |

| | | |
|---|---|---|
| Mae adrannau 2(5) a 29(1) o'r Ddeddf yn galluogi Cynulliad Cenedlaethol Cymru, mewn perthynas â Chymru, i eithrio awdurdodau penodedig, neu ddisgrifiadau penodedig o awdurdod, rhag y dyletswyddau hynny yngln â swyddogaethau penodedig. | | Sections 2(5) and 29(1) of the Act enable the National Assembly for Wales, in relation to Wales, to exempt specified authorities, or specified descriptions of authority, from those duties in relation to specified functions. |
| | | |
| Mae'r Gorchymyn hwn yn eithrio cynghorau cymuned sydd wedi cyllidebu ar gyfer gwariant refeniw gros nad yw'n fwy na £1,000,000 ar gyfer y naill neu'r llall o'r blynyddoedd ariannol a ddechreuodd ar 1 Ebrill 1998 neu 1 Ebrill 1999. | | This Order exempts community councils whose budgeted gross revenue expenditure for either of the financial years commencing on 1st April 1998 or 1st April 1999 does not exceed £1,000,000. |

| | | |
|---|---|---|
| **OFFERYNNAU STATUDOL** | | **S T A T U T O R Y I N S T R U M E N T S** |
| **2000 Rhif (Cy. )** | | **2000 No. (W. )** |
| **LLYWODRAETH LEOL, CYMRU** | | **LOCAL GOVERNMENT, WALES** |

| | | |
|---|---|---|
| **Gorchymyn Llywodraeth Leol (Gwerth Gorau) (Eithrio) (Cymru) 2000**<br><br>Wedi'i wneud 2000<br><br>Yn dod i rym 1 Ebrill 2000 | | **The Local Government (Best Value) (Exemption) (Wales) Order 2000**<br><br>Made 2000<br><br>Coming into force 1st April 2000 |
| | | |
| Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Gorchymyn canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adrannau 2(5) a 29(1) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1999*(a)*: | | The National Assembly for Wales makes the following Order in exercise of the powers given to it by sections 2(5) and 29(1) of the Local Government Act 1999(a): |
| | | |
| **Enwi, cychwyn a chymhwyso**<br><br>1.-(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Llywodraeth Leol (Gwerth Gorau) (Eithrio) (Cymru) 2000 a daw i rym ar 1 Ebrill 2000. | | **Citation, commencement and application**<br><br>1.-(1) This Order may be cited as the Local Government (Best Value) (Exemption) (Wales) Order 2000 and shall come into force on 1st April 2000. |
| (2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys i Gymru'n unig. | | (2) This Order applies to Wales only. |
| | | |
| **Eithrio rhag y dyletswyddau yn Rhan 1 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1999** | | **Exemption from the duties in Part I of the Local Government Act 1999** |
| | | |

| | | |
|---|---|---|
| 2. Ni fydd cynghorau cymuned sydd wedi cyllidebu ar gyfer gwariant refeniw gros nad yw'n fwy na £1,000,000 ar gyfer y naill neu'r llall o'r blynyddoedd ariannol a ddechreuodd ar 1 Ebrill 1998 neu 1 Ebrill 1999 yn ddarostyngedig i'r dyletswyddau a osodir gan adrannau 3 i 6 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1999 mewn perthynas ag unrhyw un o'u swyddogaethau. | | 2. Community councils whose budgeted gross revenue expenditure for either of the financial years commencing on 1st April 1998 or 1st April 1999 did not exceed £1,000,000 shall not be subject, in relation to any of their functions, to the duties imposed by sections 3 to 6 of the Local Government Act 1999. |
| | | |
| Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66 (1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 *(a)*. | | Signed on behalf of the National Assembly for Wales under section 66(1) of the Government of Wales Act 1998(a). |
| | | |
| [ ] 2000<br><br>Llywydd Y Cynulliad<br><br>Cenedlaethol | | [ ] 2000<br><br>The Presiding Officer<br><br>of the National Assembly |
| | | |